

## **COFNODION GRŴP TRAWSBLEIDIOL**

**Teitl: Hawliau Digidol a Democratiaeth**

**Dyddiad: 17-02-22**

**Lleoliad: Dros Zoom**

### **Yn bresennol:**

Sarah Murphy AS – Cadeirydd, Aelod o'r Senedd (SM)

Jim Killock – Ysgrifenyddiaeth, Grŵp Open Rights (JK)

Mike Hedges AS (MH)

Samuel Kurtz AS (SK)

Rhys ab Owen AS (RAO)

Jack Sargeant AS (JS)

Rhys Taylor (ar ran Jane Dodds AS) (RT)

Ryland Doyle (RD)

Dan Rose (DR)

Silkie Carlo (SC)

Cadi Clidd (CC)

Cate Hopkins (CH)

Roedd Chris (CW)

David Clubb, Afallen (DC)

Ed Bridges (EB)

Myles Lewando (ML)

Pippa King (PK)

Joe Seddon (JS)

A Howells-Hughes (AHH)

Jen Pearson, Defend Digital Me (JP)

Leena Farhaart (LF)

Will Henson (WH)

### **Crynodeb o'r cyfarfod**

## **Agenda, nodiadau a chamau gweithredu**

### **1. Croeso a chyflwyniadau**

Dechreuodd SM y cyfarfod drwy estyn croeso i bawb. Yna, gwahoddodd bawb a oedd yn bresennol, gan gynnwys y gwesteion, i gyflwyno eu hunain. Nododd fod y Grŵp Trawsbleidiol wedi dod ar adeg dyngedfennol, gan ein bod mewn argyfwng digidol. Trosglwyddodd SM yr awenau i JK.

### **2. Ymddiheuriadau**

Nododd JK nad oedd wedi cael unrhyw ymddiheuriadau. Yna, gofynnodd a oedd unrhyw un arall wedi cael rhai.

### **3. Penodi swyddog**

Nododd JK, fel Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol, fod angen i'r Grŵp benodi Cadeirydd, a bod hawl ganddo benodi Is-Gadeirydd os oedd yn dymuno gwneud hynny. Gofynnodd JK am enwebiadau. Enwebwyd SM gan RAO, fel cynrychiolydd Plaid Cymru. Cafodd yr enwebiad hwn ei eilio gan SK, fel cynrychiolydd y Ceidwadwyr. Pasiwyd y cynnig gan JK. Gofynnodd JK a oedd unrhyw enwebiadau ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau.

### **4. Cytuno ar y cylch gorchwyl**

Cafodd y papurau, gan gynnwys y Cylch Gorchwyl, eu rhannu'n rhithwir. Gofynnodd JK a oedd unrhyw un yn gwrthwynebu'r Cylch Gorchwyl. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad. Cadarnhaodd JK fod y grŵp wedi cytuno ar y Cylch Gorchwyl.

### **5. Hawliau Digidol a Democratiaeth yng Nghymru (JK, Grŵp Open Rights)**

Rhoddodd JK drosolwg cefndirol o waith grŵp Open Rights, gan ddatgan os yw hawliau digidol i gael eu cymryd o ddifrif, fel y dylent, yna bydd angen i Aelodau o'r Senedd gymryd camau gweithredu. Dywedodd JK ein bod mewn cyfnod peryglus ac anodd, a bod angen sylw gwleidyddol yn hyn o beth. Nododd JK bum maes allweddol y dylid edrych yn fanwl arnynt o ran hawliau data a democratiaeth:

- (i) Gofal iechyd yng Nghymru
- (ii) Addysg yng Nghymru:
- (iii) Yr economi, yn enwedig yr economi gig
- (iv) Budd-daliadau a lles
- (v) Plismona

### **6. 'Pam y dylai Cymru groesawu meddalwedd rhad ac am ddim a ffynhonnell agored'**

Cyflwynodd DC bapur Afallen ar feddalwedd ffynhonnell agored, gan nodi bod Cymru yn cynrychioli prawf diddorol ar gyfer meddalwedd ffynhonnell agored, yn enwedig yn y sector addysg. Dywedodd DC y gallai Cymru dreialu cynlluniau a allai fod yn anodd eu cyflawni mewn lleoliadau eraill, gan nodi bod hyn yn rhoi cyfle i Gymru dreialu cynlluniau digidol newydd.

Soniodd SM am y prosiect Data Nation fel maes pwnc diddorol i'w drafod. Gwahoddodd SM y Grŵp Trawsbleidiol i drafod dyfodol y grŵp a meysydd pwnc posibl eraill i'w trafod. Cyflwynodd JP waith Defend Digital Me, gan awgrymu y dylid edrych ar ddarparwyr digidol mewn ysgolion, hawliau lleiafrifol, a'r angen i fod yn rhagweithiol o ran y Ddeddf diogelu data sydd ar fin cael ei chyflwyno.

### **Cam Gweithredu 1. SM i weithio ar ymgyrch i wahardd data biometrig mewn ysgolion a'i ddwyn i sylw'r Grŵp Trawsbleidiol**

### **Cam Gweithredu 2. SM i weithio ar ddigwyddiad ar gyfer pobl ifanc a'u hawliau – o bosibl i weithio gyda'r Senedd leuenctid.**

Tynnodd ML sylw at bwysigrwydd addysg, ac yn benodol yr elfen hygyrchedd o ran meddalwedd ffynhonnell agored, a sut y gall helpu gyda mathau o wahaniaethu, yn enwedig gan gwmnïau mawr. Galwodd ML ar y Grŵp Trawsbleidiol hwn i hyrwyddo meddalwedd rhad ac am ddim a ffynhonnell agored, a'r broses o wella preifatrwydd mewn ysgolion ac ym maes addysg.

### **Cam Gweithredu 3. SM i ddod â Fairphone a phreifatrwydd i sylw Comisiwn y Senedd.**

Soniodd CH am y gwaith a wneir gydag undebau llafur a'r sector cyhoeddus. Tynnodd CH sylw at y ffaith bod pobl yn meddwl na allant herio arferion o ran data sy'n digwydd mewn gweithleoedd, gan nodi y dylid gweithio ar hyn fel bod system fwy tryloyw ar waith ar gyfer casglu data a gwyliadwriaeth. Soniodd EB am ei brofiad gyda Heddlu De Cymru, gan alw ar y Grŵp Trawsbleidiol i'w gwahodd i drafod beth sydd wedi newid ers ei achos llwyddiannus ef yn eu herbyn.

### **Cam Gweithredu 4. Gofyn i Heddlu De Cymru ddod i un o gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol i sôn am blismona a data.**

Soniodd C am fater ehangach, sef diffyg ymwybyddiaeth pobl o'u hawliau digidol, a'r ffaith bod pobl bob dydd yn troi at gorfforaethau mawr yn hytrach na throi at feddalwedd rhad ac am ddim a ffynhonnell agored. Casgliad C oedd bod diffyg deialog ynglŷn â hawliau digidol, gan ddisgrifio'r sefyllfa hon fel realaeth gwyliadwriaeth. Roedd SM yn cytuno bod llythrennedd digidol yn destun pryder. Tynnodd sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth pobl ar y lefel lle gwneir penderfyniadau ac ar lefel Llywodraeth Cymru. Pwysleisiodd SM y dylid defnyddio'r Grŵp

Trawsbleidiol hwn i hysbysu Gweinidogion a'r rhai sy'n gallu deddfu, yn ogystal â'r tîm ymchwil a'r gwasanaeth sifil. Dywedodd JS fod angen inni edrych ar gyfreithiau masnach yr UE, diogelu'r hawliau yr ydym wedi'u colli ers Brexit, a herio cwmnïau fel Facebook a Twitter o ran rhyddid i fynegi barn. Dywedodd JS y bydd yn ddiddorol gweld sut y bydd y DU yn ymateb ac yn deddfu ar y materion hyn ar gyfer unigolion ac ar gyfer busnesau.

**Cam Gweithredu 5. Y Grŵp Trawsbleidiol i lunio rhaglen o sesiynau ar bynciau sydd wedi'u cynnwys yn y cofnodion. Y grŵp i wahodd y Gweinidog perthnasol i fod yn bresennol yn y sesiynau.**

Soniodd SM am y posibilrwydd o weithio gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, a'r ymchwiliad i e-ragnodi sy'n cael ei gynnal gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Dywedodd JK fod angen i Gymru ddiogelu data i safon uchel o ran caffael, a bod yn rhaid adlewyrchu hyn mewn deddfwriaeth.

**Cam Gweithredu 6. JK i ofyn i gymdeithasau a sefydliadau gynhyrchu papurau ar wahanol feysydd pwnc er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol.**

Dywedodd JK fod gan y Grŵp Trawsbleidiol gyfle i fod yn "fforwm gwneud newidiadau".

**Cam Gweithredu 7. JK i greu fforwm lle gall aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol gyfathrebu a rhannu gwybodaeth.**

Wrth gloi'r cyfarfod, gwnaeth SM ddatgan y bydd yn anfon manylion am gyfarfod nesaf y grŵp pan fyddant wedi'u cytuno. Pwysleisiodd SM fod angen i'r Grŵp Trawsbleidiol gydweithio. Dywedodd ein bod eisoes yn gweld effeithiau data, gan nodi nad yw hyn yn syniad haniaethol. Yn hytrach, mae'n sefyllfa sy'n gallu effeithio ar fywydau pobl.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN**